

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 10fed Mai, 2021**, drwy gyfrwng 'zoom' o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Dylan Parry Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gwenan Griffiths (Is-Gadeiryddes)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Glyn Roberts, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)
Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Ifor Owen

7. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Gadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

8. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni ddatganwyd buddiant personol mewn unrhyw eitem oedd i'w drafod yn y cyfarfod.

9. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y Cyngor 12fed Ebrill, 2021. Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Carys H. Evans.

Materion yn codi

(a) Eitem 108 – Materion Ffyrdd a Llwybrau

Adroddodd Y Cynghorydd Glyn Roberts a Dylan Parry Jones iddynt ymweld a'r fynedfa i Fynwent y Cyngor yn Llandegwning a chanfod nad oedd y gwter yn gweithio. Gofynnwyd am bris am wneud y gwaith ond yn anffodus 'roedd allan o gyrraedd cyllideb y Cyngor ar gyfer y Fynwent.

Addawodd Y Cynghorydd Dylan Parry Jones y byddai yn rhoi cerrig yn y tyllau ger y fynedfa er ceisio lleihau'r gwlybaniaeth oedd yn sefyll yno. Diolchwyd iddo ef a'r Cynghorydd Glyn Roberts am ymweld a'r safle ac ymgymryd a'r gwaith.

(b) Eitem 108 – Materion Ffyrdd a Llwybrau – camfeydd

Cyflwynwyd gwybodaeth gan yr Adran Llwybrau, Cyngor Gwynedd, ynglyn a phwy oedd yn gyfrifol am gamfeydd ac hefyd gopi o'r map yn dangos llwybrau o fewn ffiniau'r Cyngor a'u categorïau. (Anfonwyd copi o'r wybodaeth yma ymlaen i bob aelod gyda rhaglen y Cyngor).

Addawodd Y Cynghorydd Carys H. Evans y byddai'n ail gerdded y llwybrau a thynnu lluniau o'r camfeydd oedd angen sylw.

Penderfynwyd diolch i'r aelod.

(c) Eitem 112 – Cyfarfod wyneb yn wyneb – cyfarfodydd y Cyngor

Adroddodd y Clarc iddi gael gair ag Un Llais Cymru ynglyn a chynnal cyfarfodydd y Cyngor wyneb yn wyneb ond argymhellwyd dilyn yr un drefn am gyfnod pellach hyd bydd y canllawiau yn llawer cliriach.

Penderfynwyd cynnal y cyfarfodydd ar hyn o bryd drwy gyfrwng 'zoom' ond cadw golwg os bydd y sefyllfa yn newid.

(ch) Eitem 110 – Meddygfa Rhydbach, Botwnnog

Nodwyd nad oedd ymateb pellach wedi dod i law gan Reolwr Meddygfa Rhydbach, Botwnnog.

Yn y cyswllt hwn cyfeiriodd Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir, at gŵyn dderbyniodd gan glaf (y claf wedi rhoi caniatad i roi ei enw a'i gyfeiriad i aelodau'r Cyngor ac hefyd i Feddygfa Rhydbach), yn dweud fod ganddo driniaeth lawfeddygol wedi ei drefnu ar 22ain Mai, 2021 ac fod angen iddo dynnu gwaed dair wythnos cyn y diwrnod hwnnw. Yn dilyn galwad i'r Feddygfa cafodd ar ddeall nad oedd apwyntiad i'w gael hyd 18fed Mai, 2021 – dyddiad oedd yn llawer rhy hwyr. Bellach mae'r claf wedi symud o'r Feddygfa.

Tynnodd Y Cynghorydd Carys H. Evans sylw i wraig fynd ati noson y Cyngor yn sôn am ei phrofiad pan fu iddi groesi o'r Orsaf Bleidleisio ym Motwinnog drosodd i'r Feddygfa i wneud apwyntiad tynnu gwaed ac iddi gael croeso llugoer gan ddweud bod yn rhaid iddi ffonio i fewn ar gyfer hynny. 'Roedd y wraig wedi cynhyrfu ac wedi tristau sut y bu iddi gael ei thrin. Bellach mae'r Cynghorydd Carys Evans wedi cael gair a'r wraig ac mae wedi rhoi caniatad i basio ei henw a'i chyfeiriad ymlaen i'r Feddygfa ac i dynnu sylw at yr profiad chwerw a dderbyniodd y diwrnod hwnnw.

Penderfynwyd anfon at Reolwr Meddygfa Rhydbach yn:

- (a) tynnu ei sylw at y ddau achos uchod.
- (b) gofyn iddo gyfarfod drwy gyfrwng 'zoom' gydag aelodau'r Cyngor, neu gydag is-bwyllgor yn cynnwys y Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Y Cynghorydd Sir a'r Clarc os byddai hynny yn fwy derbyniol ganddo - hyn er galluogi'r Cyngor i gyfleu pryderon y cleifion iddo.

10. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Cyflwynwyd cais C21/0369/32/LL – ail gyflwyniad o gais blaenorol a wrthodwyd i addasu adeiladau allanol yn ddau uned gwyliau – Neigwl Ganol, Botwinnog.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

11. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

Penderfynwyd

- (a) Anfon at y Swyddog perthnasol yng Nghyngor Gwynedd i ofyn iddynt ystyried rhoddi twmpathau gyrru i lawr allt Mellteyrn i'r pentref ac hefyd o flaen y tai Cyngor, Tre'r Ddol, Sarn.
- (b) Tynnu sylw adran Priffyrdd Dwyfor at y tyllau sydd wedi datlygu ar y ffordd ger Nant, Siop Bella a Efail Glandwr, Sarn.

12. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

13. **AWDURDOD I DALU**

Penderfynwyd awdurdodi'r taliad a ganlyn:

Un Llais Cymru

£159.00 (siec 200730)

14. **APEL I ACHUB CAPEL BETHANIA, PISTYLL**

Cyflwynwyd llythyr ar ran Cyfeillion Capel Bethania, Pistyll, yn gofyn am gyfraniad tuag at brynu yr adeilad hanesyddol yma.

Gwnaed ymholiadau gydag Un Llais Cymru ar y cais arbennig yma a chyfeiriwyd y Cyngor at 'Legal Topic Note 18' oddi wrth NALC a oedd yn rhoi arweiniad i gynghorau lleol yng Nghymru a Lloegr ar faterion cyfreithiol. Yn wyneb hyn, cyngor Un Llais Cymru oedd na "ddylai cynghorau lleol gyfrannu tuag at eglwysi neu gapeli."

Yn dilyn trafodaeth eang **penderfynwyd** peidio cyfrannu at y pryniant ond argymhell iddynt, os byddant yn llwyddiannus yn y pryniant ac yn dilyn sefydlu eu hunain fel mudiad/elusen, eu bod yn cysylltu ymhellach â'r Cyngor.

15. **RHEOLAU SEFYDLOG, ARIANNOL AG ASESIAID RISG**

Yn unol a'r drefn arferol ystyriwyd yr angen i addasu yr uchod – maent i'w gweld ar wefan y Cyngor www.cyngorbotwnnog

Penderfynwyd

- (a) Glynu at yr un rheolau/asesiad risg.
- (b) Fod Cyfarfod Blynyddol y Cyngor i'w hadolgyu'n flynyddol o hyn ymlaen.